"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YM OFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1884. [RHIF 30.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Rhagolygon Undodiaeth yn Nghymru	25
Helpu yn mlaen	28
Ulrich Zuingli	29
Cyfnewidiad barn yn nghylch Teyrnas Crist	32
Sefydliad y Parch. George Evans, M.A., yn Plymouth	33
Seiniau'r Nefoedd	34
Y Cyfarfodydd Chwarterol	35
Ignatius Loyola	38
Nodynau Gwasgarog	40
Pregethu Undodiaeth Can Mlynedd yn ol	43
Gofyniad [Hen Ystraeon Cymraeg]	45
Gohebiaethau	46
Manion a Hanesion	47
Marwgofion	48

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1884. [RHIF 30.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

RHAGOLYGON UNDODIAETH YN NGHYMRU.

Os yw Undodiaeth wedi marw, fel y dywedodd Dr. M'Cosh yn ddiweddar, nid oes iddi ragolygon o gwbl, nac yn Nghymru nac mewn un wlad arall, oddieithr y meddyliwn y bydd iddi etto ran yn adgyfodiad y rhai cyfiawn, yr hyn sydd ragolwg ogoneddus iddi. A *yw* Undodiaeth wedi marw? Dywed Golygydd y *Christian Life* mai yr un peth fuasai i Dr. M'Cosh ddywedyd fod y *Multiplication Table* wedi ei brofi yn gyfeiliornus a'i osod o'r neilldu â hyny. Os yw Undodiaeth mor wir a'r *Multiplication Table*, darllen gwasanaeth y gladdedigaeth uwchben y byw mae Dr. M'Cosh wedi wneyd, ac nid uwchben y marw. Gadawer iddi drengu yn gyntaf, ac yna rhodder iddi gladdedigaeth a fyddo yn weddus ac yn deilwng o honi.

Y pwnc yw "Rhagolygon Undodiaeth yn Nghymru." Os oes dyfodol iddi, pa fath fydd? Dywedodd cyfaill wrthyf yn Sir Aberteifi yn ddiweddar mai *bad policy* yw i ni fel Undodiaid ddynoethi ein gwendidau yn ein cyfarfodydd cyhoeddus yn nghlywedigaeth pawb,—mai mewn cynnadleddau cyfrinachol y dylem wneuthur hyn, os yw yn angenrheidiol gwneuthur hyn o gwbl. Ychwanegodd fy nghyfaill fod yr enwadau ereill yn fwy ffel, yn gallach yn eu cenedlaeth nâ ni, eu bod hwy yn *celu* eu gwendidau oddiwrth y cyhoedd, ac, lle y teimlant eu bod yn wan, eu bod ar eu goreu yn ceisio dangos eu bod yn gryf, ac mai felly y byddai ddoethaf i ninau wneuthur. Yr wyf yn amheu gonestrwydd y *policy* uchod ar rai golygiadau, ac yn credu mai gwell yw i ni fod yn Israeliaid yn wir heb ynom ddim twyll. Bydded i ni gael ein gweled megys ag yr ydym, a bydded i'r achos a gofleidiwn sefyll neu syrthio yn ol ei haeddiant.

Fy *motto* yn bresenol yw, tri gair o eiddo St. Bernard, *Respice, Aspice, Prospice*, hyny yw, Edrych di yn ol, Edrych di yma, Edrych di

yn mlaen, yn golygu yr amser gorphenol, yr amser presenol, a'r amser dyfodol. Nid wyf fi broffwyd nâ mab i broffwyd, ond medraf ddamcanu a chasglu rhyw bethau oddiwrth arwyddion yr amserau. Fel yr oedd y gorphenol yn rhyw gysgod o'r presenol, felly mae'r presenol yn rhyw gysgod o'r dyfodol; ond y perygl yw i ni addaw dyfodol gwell nag a fydd, o herwydd fod *gobaith* weithiau yn dylanwadu yn eithafol arnom.

Yr wyf yn cofio am amryw o'r hen dadau Undodaidd yn Nghymru ddeugain a rhagor o flynyddau yn ol. Yr wyf yn cofio am y cyfarfodydd chwarterol a blynyddol, y rhai a fynychent heb arbed na thrafferth na thraul; yr wyf yn cofio am aml i bregeth rymus a glywais nes yr enynai tân yn fy mynwes, ac y meddyliwn y gwelwn a llygad proffwyd doriad gwawr y Mil Blynyddoedd; yr wyf yn cofio am y cyfeillachau melus a dyddorol, er nad oeddwn i ond llanc a gwrandawr damweiniol y pryd hwnw, pan y gwnae yr hen weinidogion dreulio oriau lawer mewn siarad, ymresymu, a threfnu, a phan yr edrychent trwy belldrychau ffydd a gobaith, ac y tybient y gwelent y gwirionedd, heb fod yn nebpell, yn marchog yn fuddugoliaethus ar ei "Farch Gwyn," ond galwyd hwynt i'w gorphwysfa cyn cael y gorfoledd o weled caerau Jericho yn syrthio. Ychydig oedd ffrwyth eu llafur a'u hunanaberth mewn cymhariaeth i'r hyn y gobeithient ac y dysgwylient iddo fod. Ni chawsant weled y fechan yn myned yn fil a'r gwael yn genedl gref.

Dyma fi wedi darfod â'r gorphenol. Erbyn heddyw mae cenedlaeth newydd o filwyr ar y maes, ac yr wyf fi yr henaf ond un o'r gweinidogion sydd yn awr yn fyw. Wel, beth am Bresenol Undodiaeth yn Nghymru? Rhaid ystyried ei phresenol, a cheisio deall ei phresenol, cyn y gallom yn rhesymol ddaroganu ei dyfodol. Rhyw bymtheg-arhugain neu ragor o flynyddau yn ol, gan gymmaint fy aidd a'm hyder dros ac yn yr achos, ac efallai hefyd o herwydd synied yn rhy uchel am fy ngalluoedd fy hunan, meddyliwn y byddai Undodiaeth cyn pen nemawr o amser wedi goresgyn yr holl grefyddau ereill yn y cylch lle yr oeddwn i wedi dechreu gweinidogaethu, a chyfnod "undeb ffydd" wedi dyfod oddiamgylch; ond wedi blynyddoedd o lafur a phrofiad yn y weinidogaeth, gwelais nad oedd blaenfynediad Undodiaeth mor gyflym ag y gobeithiwn ac y credwn ar y cyntaf. Deallais fod cyfeiliornadau poblogaidd y byd crefyddol wedi gwreiddio yn rhy ddwfn i allu cloddio danynt mewn ychydig amser, ac na chawn i beth bynag ddim gweled y "ffydd, yr hon a rodded unwaith i'r saint," yn ei gogoniant eithaf yn Nghymru. Yr wyf erbyn heddyw yn gwybod mai araf, araf, yw tyfiant yr hedyn mwstard, os yn tyfu o gwbl weithiau; fod i Seion ei gauafau, ac amser rhew ac eira, pan mae'r achos braidd yn edwino yn hytrach nag yn cynnyddu. Yr wyf ragor nag unwaith wedi gweled agwedd obeithiol ar ein cynnulleidfaoedd yn y Deheubarth; yr wyf ragor nag unwaith hefyd wedi gweled agwedd wahanol arnynt. Yn ol fel yr wyf wedi sylwi, mae ffrwd bywyd crefyddol yn ein plith yn newid ei *channel*, mal pe byddai, yn awr ac yn y man: os yw yr achos mewn rhai manau yn dangos fod ynddo fywyd a chynnydd, nid yw felly yn mhob man; os yw yn llanw yma, y mae yn drai draw; os yw cynnulleidfaoedd newydd yn cael eu sefydlu, mae ysgatfydd y fam eglwysi

i raddau yn dyoddef. Yn ol fy marn i, nid doeth bob amser yw adeiladu tai cyrddau newyddion, oddieithr y golygwn y gwnant mewn rhai manau ateb yr un pwrpas a chychau gwenyn gweigion mewn gardd.

Mae yn rhaid i ni fel enwad wrth amynedd mawr a dyfalbarhad ffyddlon, gan fod yr amgylchiadau yn aml yn anffafriol i ni, a rhwystrau dirif ac anorfod braidd ar ei ffordd. Nid oes i ni fawr goriwaered ond gorifynu parhaus. Bwrw ein bara ar wyneb y dyfroedd yr ydym, a rhodio wrth ffydd ac nid wrth olwg. Mae ein cynnulleidfaoedd, yn enwedig yn y gweithfeydd yma, ar y ffordd i gael eu tori i fyny weithiau, gan fod llawer o'n haelodau, a rhai o honynt, fe ddichon, y mwyaf defnyddiol a feddwn, yn gorfod symud o gymmydogaeth i gymmydogaeth er mwyn gwaith. Hefyd, gan mai ychydig yw ein gweithwyr mewn cymhariaeth i'r gwasanaeth a ofynir oddiwrthym, nis gallwn yn rhwydd fforddio'r hafog a wna angeu yn ein heglwysi yn awr ac yn y man. Drachefn mae gwrthgloddiau rhagfarn yn nesaf peth i fod yn anorchfygol. Fel rheol ni wna dynion wrandaw arnom, neu os gwrandawant ni phwysant yn eu meddyliau yr hyn a glywant fel rhai agored i argyhoeddiad ac awyddus i wybod y gwirionedd. A'r gwir yw, gydag ychydig eithriadau, nid yw'r bobl yn cael eu hanog i ymofyn a barnu drostynt eu hunain, ond yn hytrach i ymlynu wrth yr hen athrawiaethau gan arswydo rhoddi clust ymwrandawiad i ddim na fyddo yn *orthodox* yn ol pwysau a mesur y tadau. Mae y rhai a gymmerant arnynt i fod yn athrawon yn esgeuluso eu dyledswyddau; nid ydynt yn dysgu'r bobl fel y dywedodd Mr. George Higinbotham, Barnwr Priflys Victoria, mewn darlith ar Wyddoniaeth a Chrefydd, a draddododd yn ddiweddar yn Eglwys yr Ysgotiaid (Scots Church), Melbourne. Felly y mae yn rhaid i'r bobl ddryllio'r hualau a dod allan o'r caethiwed meddyliol y maent ynddo, a dysgu eu hunain uwchlaw dylanwad pob cilni sectol. Yr wyf o'r farn fod y Cymry mewn ystyr grefyddol a duwinyddol mor gaethwasaidd, neu mor *priestridden* â'r dosparth iselaf o babyddion; coeliant bob peth a ddywedo eu hathrawon wrthynt, hyd y nod Galfiniaeth yn ei noethlymdra a'i holl ddychrynfeydd, a bloeddiant "gogoniant" am dani? Clywir weithiau am ambell i offeiriad a phregethwr yn Lloegr a'r Alban, a gwledydd ereill, wedi dryllio'r cadwynau, a neidio allan o gaethiwed *orthodoxy*, gan arwain amrai o'r lleygwyr mwyaf goleuedig eu meddyliau ar eu hol. Anaml y clywir am neb o'r cyfryw yn Nghymru. Digon gwir fod yr enwadau yn ymrafaelio llawer yn Nghymru, ond nid yn nghylch un pwnc o athrawiaeth yn neillduol, eithr yn nghylch pethau ereill cymharol llai eu pwys. Mae Coleg y Bala wedi gyru'r Independiaid yn benben â'u gilydd; mae plaid yr Hen Gyfansoddiad a phlaid y Cyfansoddiad Newydd, yn ymosod mor ddidrugaredd y naill ar y llall trwy'r Wasg, fel braidd y meddyliaf nad oes yn eu calonau fwy o grefydd nag sydd mewn *box snuff*. Gwel y "Dydd Hwn" a "Gargantua." Mae Rector Parchedig Merthyr yna yn aflonydd iawn yn ei *harness*, ac yn cicio ei fam yn ofnadwy, ond ni wna rhyw giprys fel hyn daflu dim goleuni ar dduwinyddiaeth dywyll Cymru. T. T.

(I'w barhau.)

HELPU YN MLAEN.

Mae'r byd hwn mor galed a garw ei gôb
  Fel y rhaid i'r sawl geisio fyn'd trwy,
Gael deuparth amynedd y gwr enwog Job,
  Gyda dewrder hen Nelson, neu fwy;
Y gwr fo haelionus—caredig i'r tlawd,
  A charedig i bawb heb wahan,
A hawliwn fel dyn ac a hawliwn fel brawd—
  Dyma iechyd i'w galon ar gân.

Y cwmwl a ddryllir ar doriad y dydd
  A oreurir gan belydr y wawr,
Ac felly mae'r galon a egyr yn rhydd
  Yn derbyn ei bendith i lawr;
'Does dim megys helpu un arall fo dlawd
  I helpu eich hunan yn mla'n,
A'r hwn wnelo felly sydd gyfaill a brawd—
  Dyma iechyd i'w galon ar gân.

Mae'r byd mor ddifywyd â'r gauaf, i'r dyn
  Sydd â'i galon yn oerllyd o hyd,
Ond y gwr anian gynhes sy'n *fywyd* ei hun
  A'i roddion yn geinion i gyd;
Mae blodau yn britho ymylon ei rawd,
  Mae'i gamrau a'i lwybrau yn lân,
Ei hawlio a wnawn fel ein cyfaill a'n brawd—
  Dyma iechyd i'w galon ar gân.

Gwna trallod dynoliaeth i ddyn a fo dda—
  Y dyn fo a'i galon yn fyw
I doddi fel cwyr, ac yn dawel fe wna
  Weithredoedd ardderchog eu rhyw;
Y gwr geisio symud trallodion y byd—
  Yn fychan a mawr heb wahan,
A hawliwn fel brawd ac fel cyfaill, o hyd—
  Dyma iechyd i'w galon ar gân.

Aralliad J. H. A.

Gwneir 200 miliwn o nodwyddau bob wythnos.

Er cymmaint y dinystr a achosir gan y locustiaid mewn gwledydd Dwyreiniol, y mae un fantais mewn cyssylltiad â hwy, fe ellir eu bwyta. Bwyteir hwy gan rai o'r brodorion gydag olew ar ol tynu eu cluniau a'u hadenydd i ffwrdd. Dywedir eu bod o ran blas yn debyg i wenith newydd.

ULRICH ZUINGLI.

1484—1531—Parhad o tud. 15.

Un o'r pethau a flinent Zuingli yn ddirfawr oedd parodrwydd ei gydwladwyr i hurio eu hunain allan i'w cymmydogion ar amser rhyfel. Ar adeg yr ymrysonau rhwng Ffrainc a Germani, taer ymbiliodd arnynt gydag holl eofndra gwladgarwch, a holl wresogrwydd apostol trugaredd, i beidio cymmeryd rhan yn y cwerylon llofruddiaethol, ond i ymgadw oddiwrth yr arferiad ofnadwy o hurio eu bywydau am aur. Llwyddodd i ddarbwyllo ei dalaeth ei hunan i fod yn *neutral*, ond trwy hyny tynodd ddigofaint y talaethau ereill. Fel gelynion rhyfel yn mhob oes a gwlad, cafodd ei gyhuddo o fod yn amddifad o'r teimlad gwladgarol; ond teimlai ef ei hunan ei fod yn sefyll ar egwyddorion cedyrn gwirionedd ac efengyl, ac nid oedd yn myned i gael ei droi yn ol gan ddadwrdd disynwyr pobl anwybodus.

Yn 1522, cyhoeddodd ei lyfr cyntaf, yn yr hwn y mae yn dadgan ei farn ar Ymprydiau Eglwysig, y rhai a briodolir ganddo i yspryd crafangol Eglwys Rhufain. Mae yn cydnabod y gall ymprydio fod o les i rai yn byw mewn llewndid a phleser, ond nid i'r gweithiwr, yr hwn sydd yn cael digon yn mlinder a chaledi ei sefyllfa naturiol i farwolaethu y cnawd. Athrawiaeth ofnadwy oedd hon yn ngolwg yr awdurdodau Eglwysig, a llawer i saeth gyfeiriwyd ato o bryd i bryd ar y mater—ond fynychaf yn anuniongyrchol. Yr oedd Zuingli yn rhy nerthol i neb wneuthur ymosodiad personol arno ef. Parodd Esgob Constans i'r Gymmanfa yn Baden gymmeryd i fyny fugail eglwys mewn pentref bychan gerllaw am bregethu yr *athrawiaeth newydd*. Y canlyniad o hyny oedd dwyn Zuingli allan yn fwy penderfynol. Tynodd i fyny ddwy ddeiseb, un at y Gymmanfa, a'r llall at yr Esgob, ac yn galw ar yr olaf yn neillduol i osod ei hunan ar flaen y Diwygwyr a rhoi help llaw i dynu i lawr adeilad llygredigaeth. Llawnodwyd y deisebau gan Zuingli a naw o gyfeillion.

Yn 1523, galwyd Cymmanfa yn nghyd yn Zurich, i ymdrin â'r materion mewn dadl rhwng y diwygiwr a'i gyhuddwyr. Cyn dydd y cyfarfod, yr oedd Zuingli wedi cyhoeddi 72 o erthyglau i ddyfod dan sylw—rhai o honynt yn wrthwynebol iawn i'r ffydd a'r ymarfer cyffredin. Pan ddaethant yn nghyd, yr oedd y rhai mewn awdurdod naill ai yn analluog neu yn anfoddlawn i gwrdd â phwnc y diwygiad. A phenderfynodd y Gymmanfa yn gymmaint nad oedd Zuingli wedi ei brofi yn euog o heresi nac wedi cael ei ateb, ei fod at ei ryddid i bregethu fel o'r blaen; a chynghorwyd y ddwy blaid i wneuthur yr Ysgrythyrau yn rheol eu hathrawiaeth, ac i ymgadw oddiwrth wneuthur ymosodiadau personol. Ymlynodd Zuingli wrth yr awgrym, ond ni fu ei ganlynwyr mor ddoeth. Cyhoeddwyd llyfr yn Zurich ar ddelw-addoliaeth, a chynyrfwyd y bobl gymmaint fel yr aethant yn dorf gyda'u gilydd, a thorasant i lawr y ddelw a'r groes oddiar borth y ddinas. Achosodd hyny gynhwrf ofnadwy, a bwriwyd y *ringleaders* (arweinwyr) i garchar. Daliodd Zuingli o flaen y Gymmanfa fod y weithred ynddi

ei hunan yn iawn, ond bod yr arweinwyr yn ymddwyn ar gam wrth fyned yn y blaen heb ganiatad yr awdurdodau. Galwyd Cymmanfa ar bwnc addoliad delwau. Parhaodd dri diwrnod ac ennillodd Zuingli a'i blaid y dydd. Y canlyniad oedd rhyddhad y carcharorion; barnodd y llys yn iawn i alltudio Hottinger allan o'r dalaeth am ddwy flynedd. Ymneilldodd yr alltud i Baden lle y bu byw yn dawel am dymhor ar lafur ei ddwylaw. Ond wedi dechreu ei erlid ni adawid llonydd iddo. Daliwyd ef etto, cyhoeddwyd ef yn *heretic*, ac fel y cyfryw, torwyd ei ben, gan ei wneuthur yn ferthyr cyntaf y Diwygiad yn Switzerland.

Y pwnc nesaf a bleidiwyd yn wresog gan Zuingli oedd rhyddid i'r offeiriad i briodi. Cynnaliwyd dwy Gymmanfa ar y mater, a chofleidiwyd syniadau Zuingli gan amryw offeriaid, a phriododd yntau ei hunan pan tua 40 oed.

Yr oedd syniadau Zuingli yn ymledaenu yn gyflym iawn yn awr, ac yn 1524, penderfynodd y Gynghorfa i symud yr holl ddelwau a darluniau allan o'r Eglwysi, fel na fyddent mwy yn arwain yr anwybodus i eilunaddoliaeth. Dyddymwyd yr Offeren, a gwasgarwyd y Monachdai, ond heb niweidio y Monachod, a ffurfiwyd cynllun o addysg gyffredinol ar egwyddorion y Diwygiad. Cymmerodd yr holl gyfnewidiadau yma le dan gyfarwyddyd Zuingli.

Tra yr oedd y Diwygwyr fel yma yn cario eu gwaith yn y blaen yn llwyddianus, yn ddisymwth teflir hwy i ddyryswch trwy ymddangosiad sect newydd yn eu plith. Trwy ddylyn egwyddor y diwygiad a meddwl drostynt eu hunain, mae dynion yn cael eu harwain i goleddu syniadau gwahanol ac amrywiol. Yr oedd yr un peth wedi dygwydd yn Germani, lle y darfu i'r diwygwyr y rhai a erlidid gan y babaeth ddangos mai ychydig oeddynt hwy eu hunain yn ddeall o egwyddorion rhyddymofyniad, trwy erlid y cyfryw hyny a ddaethant i gasgliadau gwahanol i'r rhai a dybient hwy yn iawn. Dyna yspryd yr oes, ac nid oedd Luther na Melancthon na Chalvin yn rhydd o hono. Gallent bleidio egwyddorion rhyddymofyniad yn erbyn Pabyddion, ond nid oeddynt yn alluog i arfer yr un egwyddorion tuag at rai a aent fe ddichon yn mhellach nâ hwy eu hunain. Cafodd Zuingli ei ddwyn i'r un cyffelyb amgylchiadau. Fel *heretic* yr oedd wedi ymddwyn yn ogoneddus, y pwnc mawr yn awr oedd sut yr ymddygai tuag at *heretic-iaid*. Ac ar y cyfan rhaid addef ei fod wedi ymddwyn yn gymmedrol iawn. Dichon fod yn hawddach iddo nag i Luther na John Calvin, am y gosodent hwy fwy o bwys ar athrawiaeth nag a wnai Zuingli. Arferai efe spectol wahanol iawn iddynt hwy, ac un â llai o liw ynddi. O'r holl ddiwygwyr, gallwn feddwl mai efe allasai osod ei hunan yn rhwyddaf mewn cydymdeimlad â'r 19eg ganrif. Yr oedd ei gynllun o fyfyrio'r Ysgrythyrau yn wahanol iawn i eiddo Luther. Dechreuai Luther gyda'r epistol at y Rhufeiniaid, a phrisiai bob rhan arall yn ol y tebygrwydd a gaffai rhyngddo a'r epistol hwnw. Felly galwai epistol Iago yn epistol gwellt, am ei fod yn gosod cymmaint pwys ar weithredoedd. Yr oedd cynllun Zuingli o'r tu arall yn dechreu gydag efengyl Matthew, wedi hyny yr Actau, yr epistolau at Timotheus, &c. Credai fel Luther yn yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd; ond

gwahaniaethai oddiwrtho mewn perthynas i'r *pechod gwreiddiol*, ac fel canlyniad gosodai lai o bwys ar fedydd plant. Desgrifiai'r hyn a elwir yn bechod gwreiddiol fel clefyd (*morbus*), ac nid fel trosedd *(peccatum)*. Mae Castellio yn ei lyfr "Ni ddylai hereticiaid gael eu gosod i farwolaeth," yn appelio at awdurdod Zuingli, ac yn dywedyd na ddyoddefodd neb o'r anabaptistiaid yn Zurich am eu hopiniynau fel hereticiaid, ond am eu gweithredoedd drwg fel gwrthryfelwyr. Yr ydym wedi cyfeirio eisoes yn hanes Luther at ei syniad mewn perthynas i'r Cymmundeb (Ymof. Rhagfyr 1883, tud. 268).

Dengys y dyfyniadau canlynol fod yn perthyn i'w syniadau *sain* wahanol iawn i eiddo Luther. "Duwioldeb, ffaith yw a phrofiad; nid athrawiaeth, nid gwyddor." "Y bywyd Cristionogol, diniweidrwydd yw; gobaith cadarn yw yn Nuw trwy Iesu Grist, a bywyd diniwed ar ol patrwn Crist." "Nod Cristion yw, nid siarad geiriau mawrion am athrawiaethau; ond yn wastad gyda Duw, i wneuthur pethau mawrion ac anhawdd." Ystyriwn fód clod uchel yn ddyledus iddo am ei fod yn *champion* rhyddid yn hytrach na chredo. Edrychai ar Dduw fel Tad Hollalluog, ewyllys yr hwn oedd fod ei blant yn ddedwydd. O'i holl heresiau edrychai y Pabyddion a'r Lutheriaid ar hwn fel y gwaethaf. Ac er cynddrwg yn eu golwg oedd ei syniad am y traws-sylweddiad a'r cydsylweddiad, ystyrient mae peth gwaeth fyth oedd ei dyb y gallai Socrates ac Aristeides, Cato a Brutus, ryw ddydd i ddod fod yn y nefoedd. Credai felly y gallai paganiaid da fod yn y nefoedd. Fel yr awgrymasom o'r blaen, bu farw Zuingli ar faes y gwaed, Hydref 6, 1531. Cymmerodd y Pum Talaeth y maes, y thorodd rhyfel allan rhwng y Pabyddion a'r Protestaniaid. Gorfu ar Zuingli ufuddhau i'r dymuniad cyffredin. Clywyd swn *cannons*, ac meddai efe, "Brysiwn rhag bod yn rhy ddiweddar. Am danaf fi, af ac ymunaf à'r brodyr—gwnaf fy rhan i'w hachub neu byddwn farw gyda'n gilydd." Calonogodd hwy felly, ond ar yr ymosodiad cyntaf derbyniodd glwyf marwol, syrthiodd yn mhlith y dorf, gorchfygwyd ei gydwladwyr, a gadawyd ef yn ddideimlad yn nwylaw ei elynion. Pan ddaeth ato ei hunan, cododd gydag anhawsder, megys am foment. Daeth milwyr Pabaidd ato, ac heb ei adwaen, cynnygiasant iddo gyffesydd. Ni allai siarad, ond awgrymodd "na" trwy siglo ei ben. Yna ceisiwyd ganddo gyflwyno ei hunan i'r Forwyn Fair, a gwnaeth yntau yr un arwydd drachefn. Gyrodd hyny hwy yn ynfyd, ac meddai un o honynt *Bydd farw ynte, heretic gwrthnysig*, ac ar hyny gyrodd ei gleddyf trwyddo. Dranoeth fe'i adwaenwyd, a daeth tyrfa o'r gelynion oddiamgylch a chydag udiadau o fuddugoliaeth gwaeddasant am iddo gael ei losgi. Cynnaliwyd brawdlys yn y man, a phenderfynwyd cydsynio a llais y dorf. Chwarterwyd y corff, llosgwyd ef, a gwasgarwyd y lludw i'r gwynt. Felly y gorphenodd y gwr mawr a da hwn ei oes yn 47 oed

---

Nid oes un gras na meddiant mwy na chredu fod Duw yn llefaru wrthym.

CYFNEWIDIAD BARN YN NGHYLCH TEYRNAS CRIST.

Syr,—Yn gymmaint ag i fod amryw o'm hen gyfeillion yn Nghymru yn rhyfeddu clywed fy mod wedi cael fy medyddio, a hyny gan *Gristadelphiad*, ac i fod ereill yn credu fy mod wedi newid fy syniadau fel Undodwr, am eu bod yn clywed fy mod yn pregethu rhyw athrawiaeth newydd, a rhai yn sisial fy mod wedi troi yn Drindodwr, byddaf yn ddiolchgar i chwi os y rhoddwch le yn rhyw gornel o'r Ymofynydd i'r ychydig linellau a ganlyn :—

Mae yn ffaith i mi ddewis cael fy medyddio trwy drochiad, ac i'r ordinhad gael ei gweinyddu gan *Gristadelphiad*, ond nid yw yn ffaith fy mod wedi newid fy marn gyda golwg ar egwyddor sylfaenol Undodiaeth Grist'nogol, sef, yn ngeiriau yr Apostol Paul, mai "Un Duw sydd, ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu." Ond Undodwr Ysgrythyrol wyf, ac nid y peth a eilw y Sais *Speculative Unitarian*, neu Theist.

Mewn perthynas i'r athrawiaeth newydd y dywedir fy mod yn ei phregethu, mai yn wir fy mod yn pregethu athrawiaeth na chlywodd Undodiaid Cymru o honi o'r blaen, er dim a wn i, ond nid athrawiaeth newydd yw. Mae yn hen athrawiaeth mor hened a'r proffwydi Iuddewig. Athrawiaeth Crist ydyw, a'r apostolion, ac athrawiaeth yr Eglwys Grist'nogol trwy y ddau canrif gyntaf o'i bodolaeth.

Rhai blynyddau yn ol, canfyddais ryw resymau â berasant i mi dybied (*suspect*) fod y farn gyffredin yn nghylch Teyrnas nefoedd, neu Deyrnas Dduw, neu Deyrnas Crist (oblegyd yr un peth sydd i ddeall wrthynt), yn ddisail yn yr Ysgrythyrau, a'i bod o darddiad Platonaidd neu Gnosticaidd, ond nid oedd genyf amser y pryd hwnw i dalu manylach sylw i'r pwnc, ac i chwilio meddwl yr Ysgrythyrau yn ei gylch, oblegyd hwy yw yr unig awdurdod a gydnabyddaf mewn pethau a berthyn i'r grefydd Grist'nogol. Wedi i mi, o herwydd cyfnewidiad amgylchiadau, gael mwy o gyfleusdra, dychwelais at y pwnc, a'r canlyniad fu i mi gael fy nghadarnhau yn fwy yn fy nhybiaeth, a hyny i'r fath raddau yn y diwedd fel y gorfyddais i roddi i fyny fy hen syniadau, a'r farn gyffredin yn nghylch Teyrnas Crist, fel yn hollol anysgrythyrol, a chofleidio yr hon a eilw rhai o'm cyfeillion yn Sir Aberteifi yn athrawiaeth newydd. Ni wyddwn i ddim, hyd oddifewn i'r tair blynedd diweddaf, fod neb enwad o Grist'nogion yn dal fy syniadau presenol ar y pwnc pwysfawr hwn, ac i fod ereill wedi eu canfod o'm blaen. Trwy ddamwain y daethum i wybod am yr enwad newydd a bychan (er yn cynnyddu bob blwyddyn) a elwir *Christadelphians*. Ystyr yr enw yw *brodyr Crist*. Synais i weled fod fy ngolygiadau newydd am Deyrnas Crist yn egwyddorion sylfaenol eu cred. Yr wyf yn addef i hyn, yn nghyd â'r ffaith eu bod yn hollol Undodaidd yn eu barn am y Bod Dwyfol, a'u bod yn gwrthod, nid yn unig y Drindod fel chwedl, ond hefyd bynciau y sectau a gam-enwir *iawnffyddiog*, neu *orthodox*. Yr wyf yn addef, dywedaf, i hyn greu cydymdeimlad mawr rhyngof â hwynt. Hefyd, yn gymmaint ag i fod fy ngolygiadau presenol ar

Deyrnas y Messia yn gofyn, yn wir yn rhwymo pob dyn ag sydd yn dewis cael rhan yn ei deyrnas, a bod yn ddeiliad iddo, ymostwng i'r ordinhad o fedydd crediniol yn ol ei orchymyn pendant ei hun. Felly ystyriais fod yn rhaid i mi ymostwng i'r Hwn y mae y bywyd tragwyddol yn ei feddiant; ac i fod i'r ordinhad gael ei gweinyddu gan rywun o'r un farn â myfi yn nghylch teyrnas nefoedd.

Nid oes eisieu dweyd rhagor yn awr. Dyma yn fyr yr unig eglurhad sydd genyf i roddi i'm hen gyfeillion am yr hyn maent wedi glywed am danaf. Nid wyf yn credu y bydd iddynt, fel dynion rhesymol, i edrych yn llai arnaf nag o'r blaen, am ymostwng i'r hyn wyf yn ystyried yn gydwybodol sydd iawn. Mae pob dyn yn y bywyd hwn yn agored i gamsyniadau, ond hyn ddywedaf, fy mod wedi talu sylw manwl a phwyllog i'r pwnc, oblegyd yr wyf yn ei ystyried yn un o'r pwysicaf yn y grefydd Grist'nogol. Os y byddwch chwi a'ch darllenwyr yn dewis, rhydd bleser mawr i mi osod ger eich bron y rhesymau a berodd i mi roddi fyny fy hen syniadau ar y pwnc, a chofleidio fy syniadau presenol. Gan ddymuned i chwi a hwythau flwyddyn newydd dda, a llwyddiant i'r YMOFYNYDD,

Ydwyf, &c.,

Birkenhead, Ion. 10, 1884. D. L. EVANS.

SEFYDLIAD Y PARCH. GEORGE EVANS, M.A., YN PLYMOUTH.

DYDD Sul, Ionawr 6, 1884, dechreuodd Mr. Evans ei weinidogaeth yn Plymouth. Ei destyn yn y boreu oedd Esa. lxi. 3. Cyfeiriodd at y ffaith mai hwn oedd nid yn unig y Sul cyntaf yn y flwyddyn, ond hefyd y Sul cyntaf o'i weinidogaeth ef. Iddo ef, un o ddyddiau mwyaf pwysig ei fywyd oedd, yn gymmaint ag mae ar y dydd hwn y gellid dywedyd ei fod yn cychwyn ar waith ei fywyd. Hyd yma yr oedd wedi bod yn parotoi ar gyfer y gwaith hwn mewn colegau a phrif-ysgolion, ac yn awr yr oedd i gael gweled sut oedd yr hyn oedd wedi ddysgu yn debyg o'i wasanaethu. Yr oedd yn gobeithio cael cario y gwasanaeth crefyddol yn y blaen mewn yspryd difrifol a chrefyddol, ac er y gallai ar brydiau fod yn analluog i gynnyrchu yr hyn a roddai foddlonrwydd i bawb fel gwaith deallol, yr oedd etto yn hyderu na wnai byth golli golwg ar ei brif ddyledswydd, sef i arwain ei wrandawyr a'i hunan trwy eu myfyrdodau yn nes ac etto yn nes at Dduw. Wedi hyny nododd allan fod geiriau y testyn yn perthyn i'r rhan hono o Esaiah, a briodolir yn awr gan ysgolheigion diweddar i rywun yn byw yn amser caethiwed Babilon. Yr oeddynt yn eiriau hefyd a ddarllenwyd gan yr Iesu yn y Synagog yn Nazareth, geiriau a ystyriai efe megys yn desgrifio yn gywir amcan cenadwri yr Athraw Mawr. Ei waith yntau, fel ystyriai efe ef, oedd yn debyg i hyn, i bregethu y newyddion da, i alw y pechadurus, nid trwy eiriau bygwth, ond trwy eiriau o obaith ac

anogaeth, i ddychwelyd at y Tad, yr hwn ni wnai byth wrthod derbyn y gwir edifeiriol. Yr oedd wedi dyfod i rwymo y rhai ysig o galon, i gysuro y galarus, ei genadwri oedd dysgu crefydd i ddynion. Yn yr hwyr seiliodd ei bregeth ar eiriau Paul, "Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda." Eglurodd fod y gair "profi" yn golygu "gosod dan brawf." Yr oedd yr athrawiaethau i'w profi trwy y rheswm oedd Duw wedi ei roddi i ddyn, ac os cawsid hwy yn afresymol, yr oedd i'w gosod o'r neilldu fel annheilwng o dderbyniad. Rhaid i bynciau deallol appelio at ein pen, ein rheswm; a phynciau moesol ac ysprydol at ein calon a'n cydwybod. Nododd allan fod ein hoes ni yn oes flaenfynedol mewn gwybodaeth dduwinyddol; fod berniadaeth ac ymchwiliad diweddar wedi dangos nas gellir amddiffyn llawer o bethau a dybid 30ain a 40ain mlynedd yn ol eu bod yn anwrthwynebol. Cyfeiriodd at ddylanwad Channing a Martineau ar lawer o weinidogion ein gwlad, tuedd yr hwn oedd i cangu eu meddyliau a'u gwneuthur yn fwy rhyddfrydig. Daliai fod ysprydmwy rhydd yn nhiriogaeth duwinyddiaeth, ag oedd yn awgrymu yn dda am ddyfodol yr eglwysi. Yr oedd dynion yn awyddus yn awr am fyned at wraidd pethau, ac nid oeddynt foddlon derbyn fel gwirionedd yr hyn oedd ereill wedi benderfynu oedd felly heb yn gyntaf ei brofi eu hunain, gan ei osod dan brawf eu rheswm eu hunain. Nododd allan yn mhellach fod angenion yn perthyn i'r enaid nad oedd dim ond crefydd allai eu boddloni, ac os na fyddai cynnullleidfa yn ei gael y byddai rhywbeth o'u mewn yn galw am dano. Daliai mae yr elfen grefyddol oedd maen-prawf gwirionedd a alwai efe yn ysprydol; ac yn ddiweddaf, gosodai bwys neillduol ar ddau wirionedd mawr a orweddent dan addysgiadau Emerson—sef, hunan-ymddibyniad ac ymddybyniad ar Dduw. Edrychwch a'ch llygaid eich hunain, meddyliwch eich meddyliau eich hunain, byddwch eich hunain.

Western Daily Mercury, Jan. 7th, 1884.

SEINIAU'R NEFOEDD.

[*Hymns Ancient and Modern*, 223.]

F. W. FABER.

Clyw f' enaid, clyw, angylaidd seiniau chwyddant
Dros faesydd daear a thros draethau'r môr;
Mor felus y gwirionedd a ddadganant
Am fywyd newydd i ni gan ein Iôr!

CYDGAN.

Engyl yr Iesu, engyl y wawr,
Canant er croesawu crwydriaid daear lawr.

Yn mlaen yr awn, a chlywn hwy'n canu etto,
Mae'r Iesu'n galw blin eneidiau i dref;
A thrwy'r tywyllwch clywaf yn adseinio
Efengyl hoff i'n harwain bawb i'r Nef.

CYDGAN—Engyl yr Iesu, &c.

Draw, draw, yn mhell, fel clychau'r hwyr yn canu,
Mae llais yr Iesu'n myn'd dros fôr a thir;
A myrdd eneidiau llwythog yn ymdyru
Ar flinion draed i wrando geiriau'r Gwir.

CYDGAN.—Engyl yr Iesu, &c.

'Rol bywyd hir gorphwysfa ddaw o'r diwedd
Aiff heibio'r dywyll nos, a gwawria'r dydd;
Terfyna'r oll mewn croesaw a thangnefedd,
A nefoedd yn wir gartref dedwydd fydd.

CYDGAN—Engyl yr Iesu, &c.

O, cenwch fyth yn mlaen, angylion ffyddlon,
Rhyw ddarnau melus o'r caniadau fry;
Nes toro'r llawen wawr dros nos ein calon,—
Nes hwyliom oll i fôr y cariad cu.

CYDGAN.—Engyl yr Iesu, &c.

Cyfd. Gorph., 1883.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

CYNNALIWYD Cyfarfod Chwarterol Cymdeithas Undodiaid Cymru yn Nowlais, nos Lun, Rhag. 31, 1883, a dydd Mawrth, Ionawr 1, 1884. Dyma y tro cyntaf i ni yn Nowlais i gael y Cyrddau Chwarterol, ac yr ydym yn hyderu y cawn hwynt yn rheolaidd o hyn allan. Nid oedd y cynnulliadau i fyny â'n dysgwyliad; ond o du y gweinidogion cawsom y pleser o bresenoldeb a gwasanaeth y rhan fwyaf o honynt. Yr oedd Mri. J. Fisher Jones, a W. E. George, Efrydwyr, hefyd yn bresenol. Drwg genym am absenoldeb y Parch. W. James, B.A., y pregethwr appwyntiedig, o herwydd afiechyd. Yn lle Mr. James bu y Parch. J. Davies, Alltyplaca, mor garedig a thraddodi y bregeth, a'r dystiolaeth gyffredinol ydyw, ei fod yn ei hwyliau goreu, yn wir ni chlywsom ef cried yn fwy effeithiol. Dechreuwyd yr oedfa gyntaf nos Lun am 7, gan y Parch. J. J. George, Aberdar, a phregethodd oddiar

1 Bren. xix. 13. Beth a wnai di yma Elias? Nid yw Mr. George yn Bessimist o gwbl, profodd hyn yn ei bregeth, prif amcan yr hon oedd ceisio dangos ffolineb athroniaeth Hobbes, sef fod pob peth a wna dyn yn tarddu oddiar hunanolrwydd (*selfishness*). Er gwrthbrofi hyn, nodoedd allan weithgarwch personau o fath Grace Darling, a bodolaeth sefydliadau elusengar, a diweddodd trwy ddweyd na ddylem briodoli cymhellion drwg i weithredoedd da neu deuwn i atgasu dynion da. Y mae y byd yn llawer gwell nag yr ymddangosa, a thardda y rhan fwyaf o ddaioni a wneir oddiar gymhellion pur ac aruchel. Dylynwyd ef gan y Parch. W. Rees, Rhydygwin. Rhoddodd yn ei ddull hapusaf bregeth ymarferol ar Matt. xix. 16 a'r 17. Eglurodd yn fanwl y gwahanol *standpoints* oddiar ba rai y gofynir y cwestiwn, "Pa beth a wnaf er etifeddu bywyd tragwyddol?" Nododd allan y gwahanol atebion a roddir. Un ddywed trwy *ffydd*, arall trwy *fedydd*, ac arall trwy *gredo*, y ceir bywyd tragwyddol, ond ei ateb ef oedd mai *bywyd pur* yw yr hyn gynnyrcha ddedwyddwch yma ac yn y byd nesaf.

Dydd Mawrth am 10.30, dechreuwyd gan y Parch. J. H. Davies, a phregethodd Mr. Davies, Alltyplaca, oddiar 2 Cor. iv. 13. "Credais, am hyny lleferais." Meddai, yr ydym yn byw mewn oes ryfeddol—rhyfeddol ar gyfrif ei gwybodaeth a'i ymchwiliadau. Gofynir yn awr yn fwy nag erioed, y paham, a pha fodd o pob peth. Nodweddir yr oes gan ansefydlogrwydd mawr. Yn fynych, amheuir ein syniadau mwyaf anwyl. Ceisia y byd wneyd pob peth yn syml—er enghraifft, ni wneir "naid" o'r llyfrau elfenol hyd at y *Speaker*—ein llyfr mawr ni er's llawer dydd—yn yr hwn yr oedd geiriau o'r Lladin, Groeg, Hebraeg, Almaenaeg, &c., o gymmaint syllebau nes yr oeddynt yn *jawbreakers* i'w swnio, ond arweinir y plentyn yn awr yn raddol fel y cynnydda ei wybodaeth. Symlrwydd yw prif nodwedd Duwinyddiaeth yr oes hon. Gan hyny, rhoddaf i chwi y boreu yma fy nghredo. Credai mewn Un Duw, un ysbryd tragwyddol—hollalluog, holl-bresenol. Fel prawf o fodolaeth Duw, defnyddiodd Mr. Davies yr hyn a elwir y "Design Argument," sef y dull o resymu allan fodolaeth "achos" oddiwrth amgyffrediad trwy ein synwyrau o "effaith." Dacw Gastell! felly casglwyf fod yn rhaid fod adeiladydd y Castell wedi neu yn bod, felly cangwn y meddylddrych. Y mae y byd yn amgyffredadwy i'n synwyrau, felly y mae yn rhaid fod adeiladydd neu gynllunydd y byd yn bodoli. Prawf arall. Chwilia dyn yn wastadol am ei Dduw. Profir hefyd ei fodolaeth gan natur foesol dyn, yr hwn a wahaniaetha yn wastadol rhwng y da a'r drwg.

II. Duw personol fel ein Tad. [illegible]

III. Yn Mab Duw, fel yr ysgrifenwyd am dano, "Hwn yw fy anwyl Fab yn yr hwn y'm boddlonwyd." Ei fod yn well na phob dyn arall. Nid oes dim yn annaturiol yn y ffaith fod yr Iesu yn uwch nâ neb arall. Fel rheol, gwneir pob peth mawr gan ddyn rhyfeddol. Ystyriwch Newton, Galileo, &c.

IV. Yn "yr Ysbryd Glan," yn nylanwad ysbryd anfarwol Duw ar ysbryd marwol dyn. Fel prawf o ddylanwad ysbryd ar ysbryd, gwelwn sut y dylanwada dyn ar ei gyd-ddyn.

V. Yn y Beibl fel llyfr y llyfrau. Nid yw pob rhan o hono yn gyfwerth. Nid yw Epistolau Paul mor bwysig â phregeth Crist ar y Mynydd. Dywedir gan rai y bydd i lyfrau crefyddau y Dwyrain oroesi y Beibl, ond credaf y bydd y Beibl mor anwyl ag erioed pan y bydd y rhai hyn wedi eu claddu yn medd annghofrwydd.

VI. Yn nherfynoldeb gwybodaeth ddynol ar y ddaear.

Ar ol gweddi fer gan Mr. Davies, appwyntiwyd gweinidog y lle i'r gadair, a galwyd y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, i ddarllen ei bapyr ar "Ragolygon dyfodol Undodiaeth yn Nghymru." Rhoddodd ei bapyr foddlonrwydd mawr.

Yr oedd yn hyfrydwch i ni fod y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, wedi ei adferyd gymmaint o'i afiechyd diweddar fel ag i fod yn bresenol, a chawsom araeth hwylus ganddo ar y pwnc. Meddai: Ni ymddengys rhagolygon uniongyrchol Undodiaeth yn obeithiol; ond am y dyfodol pell, y mae llwyddiant Undodiaeth yn ddiamheuol. Yn Swydd Forganwg nid yw Undodiaeth fel y dylai fod. Y mae mwy o frwdfrydedd unigol—mwy o'r *ager* ysprydol, yn eisieu i sicrhau llwyddiant.

Dywedai y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, fod yn rhaid fod Undodiaeth yn wir, am y rheswm y bodola yn y presenol; oblegyd gwna eu chofleidwyr eu goreu i'w lladd. Rhagor o zel cenadol sydd yn eisieu o du y gweinidogion, yn neillduol felly gweinidogion swydd Forganwg. Dylai y gweinidogion geisio adennill y meddwyn.

Ar ol Mr. Jones cawsom ychydig eiriau gan y Parch. Hobart Clark, Caerdydd, ar Undodiaeth yn yr Amerig, ac ychwanegodd y gobeithiai y buasai yn alluog i wahodd y Gymdeithas Undodaidd i Gaerdydd y flwyddyn nesaf. Terfynwyd y Gynnadledd trwy weddi gan Mr. Lloyd.

Am dri o'r gloch, dechreuwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, a gweddiodd yn daer am fwy o zel grefyddol yn ystod y flwyddyn hon nag yn yr un flaenorol. Yna pregethodd y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, oddiar Luc xviii. 10—44. Sylwodd fod pob sect, er gwaethaf y gwahaniaeth sydd rhyngddynt, yn cytuno mae Crist yw eu Hathraw, a'r goreu o bawb Athrawon. Yn amser Crist yr oedd dau fath o bobl yn ffynu, y crefyddol a'r annghrefyddol. Rhoddodd i ni arferion Crist. Condemniodd Phariseaeth, a dywedodd mae dynion naturiol, i'r rhai y mae didwylledd yn fwy nâ thraddodiadau y Tadau, yw y goreu o bawb. Cymmeradwya y ddammeg ostyngeiddrwydd, a rhydd ddwy olwg wahanol ar ddyledswydd. Yr Eglwys oedd safon crefydd y Phariseaid, tra yr oedd eiddo y Publican yn cyfnewid yn barhaus, fel yr oedd yn cynnyddu mewn moesoldeb.

Canlynwyd ef gan y Parch. J. Evans, Gellionen, yr hwn a bregethodd oddiar Colossiaid iii. 2 a'r 4. Rhoddodd hanes yr Eglwys yn Colossa gan ddweyd fod daliadau y Colossiaid yn debyg i eiddo "Agnostics" y dyddiau presenol. Felly yr oedd y testyn yn darawiadol iddynt. Sylwodd fod yr holl hil ddynol wedi dymuno am iachawdwriaeth; ac yna siaradodd yn nghylch, I. Gwyr y Seremoniau, gyda pha rai y mae y "Mass" yn brif beth. Parchwn y gwyr hyn yn ol mesur eu hymlyniad i addysgiadau Crist. II. Y mae y bobl uniawngred yn groes i draws-arglwyddiaeth pabyddol, gan roddi i Dduw yn unig y gallu i

faddeu pechodau. Dylasid parchu Calvin fel y "Roman Catholic," yn ol ei ymlyniad i Dduw. III. Dynion moesol ac ysprydol. Dyma y bobl ddewisedig. Bywyd yw canolbwynt eu hathrawiaeth. Perthyna cyfiawnder, tangnefedd a llawenydd yn yr ysprydglân iddynt. Bydded i bawb berthyn i'r dosparth olaf hwn.

Am 7, darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. Hobart Clark, Caerdydd, a phregethodd oddiar Diarebion xxiii. 7. Amcan ei bregeth oedd ceisio nodi allan y sefyllfa Undodaidd yn y byd crefyddol. Caritor sydd yn penderfynu credo, ac nid yn ol yr hen systemau credo yn penderfynu caritor. Yn ol Rhyddfrydiaeth, caritor yw y prif beth. Yna olrheiniodd hanes y gofyniad, Beth yw y Gwirionedd? Dywedai fod gwrthwynebwyr Undodiaeth yn cael cryn dipyn o anhawsder i wybod beth ydyw, oblegyd nid oes gan Undodiaeth gredo ffurfiol. Ni arwyddoca yr Eglwys Undodaidd ffeithiau ond egwyddorion. Saif yr Eglwys Undodaidd dros wirionedd, rheswm, cyfiawnder, a charitor. Ni arwydda pob un o'r rhai hyn *un ffaith* ond myrddiynau o ffeithiau. Diweddodd trwy ddweyd fod yr Iesu wedi gweithio dros egwyddorion ac nid dros ffeithiau. Cafwyd diweddglo hapus i'n hoedfaon mewn pregeth rymus ac ymarferol gan y Parch. T.T., oddiar Philip. ii. 12, "Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn." Yr oedd y canu yn ystod y cyfarfodydd o dan arweiniad Mr. D. Davies, Penydarren, gynt o Moelhedog, a chlywsom ganmoliaeth uchel i'w lafur gan gerddor deallus. Chwareuwyd ar yr *Harmonium* yn fedrus iawn gan y brawd icuanc gobeithiol Master T. Lewis, mab Mr. John Lewis, ysgrifenydd parchus y gynnulleidfa. Yr ydym yn ddiolchgar i'n gweinidogion am eu gwasanaeth, ac i ddyeithriaid Aberdar, Cwmbach, Cefn, a manau ereill am eu presenoldeb.

Cynnelir Cyrddau mis Mawrth yn Rhydyparc, y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, i draddodi y bregeth, a'r Parch. W. James, B.A., Llandyssul, i ddarllen ei bapyr ar "Beth yw bod yn Gristion."

Yr eiddoch,

W. J. Davies.

IGNATIUS LOYOLA.

1491—1556.

Yn rhifyn Rhagfyr, tudalen 279, rhoddasom awgrym am y dylanwadau a ddaethant i fodolaeth trwy offerynoliaeth Loyola—dylanwadau a roddasant nerth newydd i'r babaeth ac a'i galluogasant i raddau mwy neu lai i wrthsefyll, os nid i droi yn ol ddiluw gorchfygol y Diwygiad mawr. Gellir dosparthu bywyd Loyola i dair cyfnod, y rhai ydynt yn cael eu nodweddu gan ysprydgwahanol iawn.

Yn y llc cyntaf cawn ef yn filwr hardd a beiddgar, a'i brif awydd i ennill clod milwrol. Yn 29ain oed, mae yn un o amddiffynwyr Pam-

peluna yn erbyn y Ffrancod. Pan y mae ei gydwladwyr yn cytuno i roddi y ddinas i fyny, mae yn eu cyhuddo o gowardiaeth; ac yn nghwmni un person yn ymneillduo i'r castell, a thrwy ei eiriau a'i esiampl yn annog y gwarchodlu i ddal allan. Baeddir y muriau i lawr; mae yntau yn neidio i'r adwy ac yn gwynebu storm yr ymosodiad, nes y mae un o'i gliniau yn cael ei tharo gan ddarn o'r gwrthglawdd, a'r llall yn cael ei chwilfriwio gan belen o gannon. Mae hyd y nod y gelyn yn canmol ei amddiffyniad dewr, ac yn gorchymyn iddo gael ei gario i gastell ei dad, yr hwn nid yw yn mhell.

Y tro nesaf yr ymddangosa yn gyhoeddus, y mae cyfnewidiad mawr wedi dyfod drosto. Ni fydd byth mwy yn addas i fyned i faes y gwaed. Yn unigedd ei glaf-ystafell mae wedi cael allan nad yw y bywyd hwn ond gwagedd; ac edrycha ar ei fywyd yn y gorphenol fel un ysmotyn mawr o ddrygioni. Penderfyna o hyn allan i droi holl nerth arswydus ei ewyllys i weithio allan ei iechydwriaeth ei hunan. Felly dyma'r marchog dysglaer yn cael ei droi i fod yn bererin llymrig, ac yn myned ar daith i Jerusalem. Mae ei wallt modrwyog, llyfn, ac ysplenydd yn awr yn gudynau caglog brwnt; a'i wisgoedd costus wedi eu newid am wisg o gywarch garw wedi ei wregysu am dano â rhaff dew. Mae un droed yn noeth a'r llall yn glwyfus ac wedi ei chlytio, a chychwyna'n mlaen dan glunhecian yn boenus. Rhoir darnau o aur iddo gan ei gyfeillion, ond gwasgara'r oll mewn elusen. Wrth fyned yn y blaen, mae yn ymprydio am wythnos ar y tro; a phan wedi ei ddarostwng hyd at ddrws newyn, mae yn cardota ei fara yn flin o ddrws i ddrws. Cyrhaedda Barcelona, ac o dosturi, cymmerir ef ar fwrdd llong, a glanir ef yn Gaeta. Difrodir Itali ar yr adeg yma gan yr haint, ac mae'r brodorion yn ddrwgdybus o bob dyn dyeithr. Edrychir ar y Spaniard brwnt hwn, yr hwn nid yw yn gallu siarad gair o'r Eidaleg, a'r hwn sydd yn amlwg ar ei daith i Venis, braidd gyda dychryn. Bernir wrth ei ruddiau gwelwon a'i lygaid dyfnion ei fod yn llawn o'r haint. Gyrant ef oddiwrth eu drysau, a gorfyddir arno lusgo ei aelodau blinion allan o'r pentrefi, a gorwedd drwy y nos yn y maesydd. Gydag anhawsdra mawr mae yn cyrhaedd Venis, ac yn cael llong i'w drosglwyddo i Joppa. Yn Ngwlad Canaan mae yn rhoi ei hunan i fyny i ryw ffrwd o deimladau duwiol. Daw y dagrau yn ffrydiau o'i lygaid wrth edrych ar y golygfeydd sanctaidd. Drosodd a throsodd mae yn dychwelyd i Eglwys yr Esgyniad ar ben mynydd yr Olewydd, ac yn aros yno mewn rhyw ber-lesmair addoliadol uwchben olion traed yr Iachawdwr yn y graig. Teimla awydd i aros yn y Wlad Sanctaidd hon, a threulio ei fywyd i geisio dychwelyd yr annghredinwyr; ac nid oes ond bygythiad esgymuniad yn alluog i'w ddarbwyllo i ddychwelyd adref.

Gallwn gasglu nad yw y dull hwn o farwolaethu ddim wedi dwyn tawelwch i'w gydwybod, gan y cawn ef yn fuan yn ei roddi i fyny. Ei benderfyniad yn awr yw bod yn was bywiog yn yr Eglwys. A'i gam cyntaf yw cael addysg iddo ei hunan. Gesyd ei hun yn yr ysgol yn Barcelona; ac er ei fod yn ddyn yn ei lawn faint ac yn 30ain oed, mae yn eistedd yn mhlith bechgyn 12eg oed, ac nid yn unig yn dysgu yr

un gwersi, ond yn mynu cael dyoddef yr un fflangell. Wedi meistroi yr elfenau, mae yn myned i Brif-Ysgol Paris i orphen ei efrydiaeth. Erbyn hyn, trwy dylanwad nerthol ei garacter, mae wedi ennill ato amryw ganlynwyr. Gyda'r rhai hyn mae yn cychwyn i Itali, i osod ei hun at wasanaeth y Pab; a chawn hwy yn byw yn Vicenza. Preswyliant mewn annedd-dy ddiffaeth ac adfeiliedig y tu allan i'r dref. Ar wely o wellt a sofl, we li eu casglu o'r maesydd, gwyliant a gweddiant yn ystod y nos, ac yn ystod y dydd ant allan i'r heolydd i bregethu ac i gardota. Yn nghanol y cyfryw olygfeydd annyddlan mae y cardotwyr tlodion yma yn ffurfio cynllun i ddarostwng yr holl bil ddynol. Mewn geirian ereill, maent yn ffurfio cymdeithas dan yr enw "Cymdeithas yr Iesu," amcan yr hon yw darostwng yr holl fyd i'r Pab. Nid oes ond dynion o feddwl a character cryf yn cael eu gwneuthur yn aelodau. Wrth gael eu derbyn, gwnant lw difrifol na fydd ganddynt yr un ewyllys o'r eiddynt eu hunain, ond y bydd iddynt roi ufudd-dod trwyadl i'r Eglwys yn mhob peth. Ffurfiant eu hunain, mewn gair, i fod yn offerynau yn ei llaw hi yn unig. Er ei mwyn hi ni feichiant eu hunain á gwisgoedd offeiriadol; gwrthodant esgobaethau ac urddasau offeiriadol ereill. Ant ar daith trwy Ewrop, yn barod i gymmeryd i fyny unrhyw swydd yn yr hon y gallant fod o wasanaeth i'r Eglwys. Pregethant yn yr heolydd, dysgant yn yr athrofeydd, ac y maent yn cael eu gwneuthur yn gyffesyddion i freninoedd. Fe ly y mae Jesuitiaeth yn dyfod yn beiriant nerthol trwy holl Ewrop, a i holl ranau yn gyfryw y gellir ymddiried ynddynt, ac wedi eu cyfan-gyssylltu yn nerthol wrth eu gilydd; a Loyola, Cadfridog y Gymdeithas, ydyw prif-ysgogydd a rheolydd yr oll.

Bu farw Loyola yn 1556, ac y mae wedi ei wneuthur yn saint, dan yr enw St. Ignatius.

D. P.

NODYNAU GWASGAROG.

Yn ol y cyfrif diweddaf pellder yr haul oddiwrth y ddaear yw nid 95, fel yr ydys wedi bod yn hir yn ddysgu, ond rhwng 92 a 93 o filiynau o filldiroedd. Dyma faes i'r meddwl weithio. Mae y morwr sydd wedi bod o amgylch y ddaear wedi gwneuthur taith bell, ond y mae'r goleuni mewn un eiliad, tra fyddo'r gwaed yn gwneuthur un curiad, wedi teithio wyth gwaith mor bell, ac yn gwneuthur y daith o'r haul i'r ddaear mewn wyth munyd. Ond y mae sér yn y ffurfafen mor bell fel y mae eu goleuni yn cymmeryd amryw filoedd o flynyddau i ddyfod atom ni. Tybiwn ei fod yn cymmeryd un fil— a'i fod bob munyd yn teithio 12 miliwn o filldiroedd, bob awr yn agos i fil o filiynau, a'i fod felly yn neshau am oriau, am ddyddiau, blynyddau, canrifoedd, am ddeg canrif! Y pelydryn goleuni yna, meddyliwch am dano! Wedi cychwyn cyn amser Gwilym y Goresgynydd, tuag amser Alffred Fawr, ac wedi dyfod yn nes nes 12 miliwn o filldiroedd bob munyd, y nos hon mae yn dyfod i ben ei daith, yn disgyn ar

delescope y seryddwr. O, pe gallai efe ond nodi y pelydryn yna, y teithiwr dysglaer yna trwy anfeidroldeb yr eangderau, beth fyddai ei deimlad yn edrych arno?—*Dewey.*

Mae yn ffaith hynod pa bryd bynag y cawn allan sut y mae unrhyw beth wedi ei wneuthur, ymddengys mae ein casgliad cyntaf yw nad Duw a'i gwnaeth. Ni waeth pa mor ryfeddol, mor brydferth, mor anfeidrol gymhlethedig a *delicate* fyddo y peiriannwaith sydd wedi gweithio feallai am ganrifoedd, feallai am filiynau o oesoedd i ddwyn rhyw ganlyniad bendithiol oddi amgylch—os gallwn ond yn unig gael cipolwg ar y rhodau, mae ei nodwedd ddwyfol yn union yn diflanu. Y peiriant wnaeth y cwbl ac ofer edrych dim yn mhellach!—*Miss Cobbe.* Casgliad ffol onide?

Nac esgeuluswch eich cydgynnulliad.—Pan glywaf ddyn yn dywedyd, "Nid wyf yn gofalu dim am eglwysi ac addoliad; gallaf addoli gartref;" a thrachefn yn dywedyd sut yr arferai ei hen dad da, y diacon, fyned i'r eglwys, yr wyf yn teimlo yn barod i ddywedyd, "Gyfaill, darfu i'ch tad, y diacon, mae'n debyg gen i, adael tipyn o arian i chwi, ond gadawodd i chwi etifeddiaeth ardderchog o feddwl ac o deimlad, sydd yn cyrhaedd hyd y nefoedd ac yn perthyn yno. Y gwir yw, yr ydych trwy enedigaeth-fraint yn aelod o'r Eglwys Grist-nogol. O'r tu ol yr ydych yn cyrhaedd hyd y wir winwydden. Yn awr yr ydych wedi gwneuthur eich etifeddiaeth fechan yn ffortun, a gwneled yr Arglwydd chwi yn fwy dedwydd am bob darn o arian yr ydych yn werth. Ond dywedwch wrthyf yn awr, beth am yr etifeddiaeth arall hono? A ydych ond yn unig defnyddio llog hono, neu a ydych yn treulio'r corff? A yw eich ffordd o fyw yn debyg o derfynu yn y fath fodd fel y bydd gan eich plant y fath drysor o'r meddwl a'r teimlad sydd yn gogoneddu yr enaid ag oedd genych chwi, neu ynte wrth roddi iddynt fwy o arian a roddwch chwi iddynt lai o ras? Cofiwch, gyfaill, mater personol yw. Dywedwch wrthyf beth mae eich addoliad gartref yn ei wneuthur er iachawdwriaeth y byd, pa ffrwyth da sydd yn dyfod o hono, ac yna dywedaf yn gywir wrthych beth werth yw. Canys os yw yn dwyn ffrwythau da yr ysbryd a'r bywyd, y rhai ydynt yn wastad yn deilliaw oddiwrth unrhyw wir addoliad o Dduw, y mae eich llwybr yn ail oreu i'r ymgyflwyniad o galon ac o enaid at ryw eglwys neu fudiad gwir Grist'nogol, y cyfryw ag a fyddai yn ateb yn oreu i'ch dyhead chwi a lles y byd. Ond os yn eich unigedd nid ydych yn dwyn y cyfryw ffrwyth, ac os ydych yn ymwybodol fod eich ymdrech i wneuthur rhywbeth ardderchog a da yn llacau yn barhaus, yna nid wyf yn amheu nad ydych etto yn gangen o'r Winwydden fawr; ond pob cangen heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynu ymaith, fel y dygo fwy o ffrwyth.—*Robert Collyer.*

Cred Undodwr.—Ac unwaith wedi hyn talais ymweliad ä Camp Douglas, ac eisteddais i lawr yn mwthyn dyn claf, carcharor o'r De. Meddai efe, "A ydych yn weinidog?" Atebais fy mod. "Pa fath, Bedyddiwr?" "Na." "Methodyn?" "Na." "Presbyteriad?" Yr oeddwn am weled pa mor bell y gallai fyned, a dywedais etto "Na." Tebyg iawn mai dyma'r oll oedd wedi glywed am danynt, canys agorodd ei lygaid led pen, wedi myned trwy ei gyfres, a dywedodd, "Beth ynte?" Atebais inau, "Undodwr." "Ah," meddai, "chlywais i erioed son am yr enwad yna o'r blaen. Beth maent hwy'n gredu?" Felly dywedais wrtho sut y credant fod Duw yn Dad i ni, ac yn gofalu am danom bob yr un, a sut y mae yn cymmeryd dyn am yr hyn yw ac nid am yr hyn mae yn ei ddywedyd, a sut y mae yr un cymmaint yn Dad i ni ar ol marw ag yr oedd cyn hyny. "Wel," meddai y dyn "chlywais i erioed o hynyna o'r blaen; ond y mae hynyna yn iawn; deuwch i ymweled â mi etto." Aethum, yr wyf yn meddwl, ar y trydydd dydd, ond yr oedd ei fwthyn yn wag; yr oedd wedi myned at ei Dad.—*Robert Collyer.*

Cydraddoldeb Crefyddol.—Meddylddrych gwreiddiol y syniad o gydraddoldeb crefyddol yw, y dylai credo fod yn ddadganiad o'r hyn y mae dyn yn ei gredu, ac nid o grediniaeth a wthir arno—mae yr unig beth y dylai credo ymorphwys arno yw, y rhesymau all ddwyn o'i chydymffurfiad â'r gwirionedd. Yr ydym yn ymorchestu am oruchafiaeth hollol cydwybod pob person unigol, ac fel canlyniad hawl pob dyn, heb obaith am wobr, neu ofn cosp oddiwrth y wladwriaeth, i benderfynu drosto ei hun mewn perthynas i awdurdod unrhyw gredoau, gan weled fod atebolrwydd ei benderfyniad yn dybynu arno ef, ac arno ef yn unig. I'w Feistr ei hun y mae yn sefyll neu yn syrthio, ac nid i Freninoedd na Gwladwriaethau, nac hyd y nod i gyrff eglwysyddol, ac yn gymmaint fod ganddo ateb i Dduw, y mae cyfiawnder ac ysgrythyr yn gyffelyb yn gofyn am iddo gael bod yn rhydd i ufuddhau i eirchion ei gydwybod ei hunan.—*Rogers.*

Y Swmbwl.—Mi feiddiaf ymddiried yn yr adyn gwaethaf yn y lle i fod yn dda i'w wraig, os bydd wedi ei helpio i fagu y baban bach sydd yn y bedd, y baban bach y mae hi yn tori ei chalon am dano. Mae y swmbwl, dros yr amser y mae yn ei deimlo, wedi gwneuthur dyn o hono. Ac felly yma, yr ydym yn dyfod i gyffyrddiad â'r elfen oedd yn y nerth oedd gan Paul, tra'r oedd y swmbwl ganddo. Y trallod ei hunan, nad beth oedd, yr oedd yn dal gallu newydd. Cafodd ei fod yn gymmaint mwy i'w fywyd ag yw Calfaria yn fwy nâ Chanaan i fywyd y byd, ac yna rhoddodd i fyny bob meddwl o gael gwared o'r swmbwl. Felly, fel y gallwn weled mai nid y priodasau, ond y croeshocliadau ydynt bethau mawrion hanes; nid y gwyliau ond y brwydrau;

nid y clodforedd *(ovation)* ond y merthyrdod ;—cawn y gras cyntaf a ddaw o'r nefoedd i'n helpio i oddef ein swmbwl yn y cnawd, nad beth fyddo,—yn anffawd personol ; analluogrwydd i fod yr oll y teimlwn y dylem fod ; meddiant o nwyd ag y teimlwn fod genym i'w wylied gyda gofal dibaid ; poen sydd yn herio pob doctor ; tywyllwch yr yspryd, yn erbyn yr hwn nid oes modd dwyn un ymresymiad ; clwyf rhyw hen bechod chwerw ; cartref yn yr hwn nid oes un goleuni o wir gariad ; siomedigaeth mawr ac anwelladwy ; neu farwolaeth ein dysgleiriaf a'n goraf—y rhai hyn, meddaf, ddichon fod telerau y gras sydd yn perffeithio yn ein gwendid. Mae i sirioldeb ei le ei hun ; llawenydd ydyw gwin bywyd ; ond gwaed bywyd a ddaw trwy ymdrech, a'r Iachawdwr yw y Gwr gofidus, cynnefin a dolur.—*Robert Collyer.*

PREGETHU UNDODIAETH CAN MLYNEDD YN OL.

Parhad o tud. 21.

Drachefn, "Aeth yr Iesu o amgylch gan wneuthur daioni." Yn nghyflawniad ei swydd nefol dangosai bob amser y parodrwydd a'r gweithgarwch mwyaf, ac y mae yr un mor amlwg a hyn mai yn y cyflawniad o honi oedd ei brif hyfrydwch ef yn gynnwysedig. Yn brawf o hyn y mae genym, heblaw iaith gydarnhaol ac argyhoeddedig ei ymddygiad, ei dystiolaeth yn ei eiriau ei hun. "Iesu a ddywedodd wrthynt, Fy mywyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorphen ei waith Ef." Y mae dynion yn gyffredin yn meddwl ei fod yn ddigon iddynt hwy os gallont gynnorthwyo tipyn ar y tlawd pan y maent ar newynu, pan yn cael eu cymhell i hyny ganddynt ; ac hyd y nod pryd hyny y maent yn gwneuthur felly yn y fath fodd, neu yn y fath yspryd ag sydd yn profi nad ydynt yn gwneyd felly yn ewyllysgar, ac fel pe dymunent ysgoi ei wneuthur. Nid felly yr Iesu pur a charedig. Nid oedd Ef yn ymfoddloni ar roddi cymhorth ac addysg i'r rhai hyny yn unig a wnaethant appel i'r perwyl hyny, ond darfu iddo Ef chwilio allan am bersonau gyda golwg i'w cynnorthwyo a'u haddysgu yn ei addysgiadau ei hun. Nid arosai Ef hyd oni fuasai cyfleusderau yn cynnyg eu hunain, ond gwnaeth yn bwnc ei fywyd i geisio yn gystal ac i achub yr hyn a gollasid.

Pan nad oedd eisieu ei wasanaeth yn un lle, aethai i fan arall lle y gwyddai Ef buasai ei wasanaeth o wir werth ac yn dderbyniol. Felly yr ydym yn darllen iddo, heb neb yn gofyn iddo, fyned i long a hwylio drosodd i wlad y Gergesiaid, lle yr iachaodd mewn modd rhyfeddol ddau berson o wallgofrwydd, neu ryw anhwylder arall anadnabyddus i ni, ac yna dychwelodd i'w ddinas ei hun, yn berffaith foddlon o'r daioni oedd wedi wneyd, er iddo gael ei drin yn anmharchus gan drigolion y lle. Y mae hon yn ddiau yn weithred dda a nefol, oblegyd a ellir rhoddi cyfrif am y cymhelliad a'i cymhellodd i'w chyflawnu, ond

y dybiaeth ei fod wedi ymgymmeryd â'r fordaith drafferthus oddiar awydd daer a duwiol i adferyd i'r personau annedwydd yma eu rheswm a'u deall?

Pan allasai yn rhyw fodd ychwanegu at ddaioni a dedwyddwch ereill, ni feddyliai ddim am y perygl a'r drafferth yr aethai trwyddynt. Gyda'r amcan yna mewn golwg, gwadodd iddo ei hun angenion a chyfleusderau bywyd. Tra yr oedd ffauau gan y llwynogod, a chan ehediaid y nefoedd nythod, nid oedd gan Fab y dyn le i osod ei ben i lawr. Gyda golwg i wneyd daioni, dyoddefodd newyn a syched, a gwnaeth ei hunan yn agored i ddiffygion trafaelu, a chynddaredd y gwyntoedd a'r môroedd. Treuliai ddyddiau cyfain gyda chyfeillion, ac yn cael ei amgylchynu gan dyrfaoedd, heb yngan yr un gair o anfoddlonrwydd, neu ddymuniad i'w hosgoi, hyd y nod pan gymmerodd ei ddysgyblion arnynt eu hunain i attal ac annghymmeradwyo anfoesgarwch y dyrfa, gweinyddodd gerydd mwyn ac amserol iddynt. Gan ei fod yn cyssegru ei hunan yn hollol at wasanaeth dynolryw, ni omeddodd ddyoddef yr un caledi, ac ni ochelodd yr un anhawsdra. Peryglodd ei enw da, y perl gwerthfawrocaf o eiddo yr enaid dynol. Ac ystyriwn, fy nghyfeillion, dros bwy y gwnaeth Efe hyn oll; pwy oeddynt wrthddrychau uniongyrchol ei ffafr Ef? Dichon y gellir dywedyd mai ei gydwladwyr oeddynt, y rhai oedd ganddynt yr hawl fwyaf resymol i bob cymhorth oedd yn ei allu i'w roddi iddynt hwy. Gellir yn rhesymol meddwl hyny. Ond ar yr un pryd, ystyriwn pa beth wnaethant fel ad-daliad iddo am ei holl garedigrwydd. Bid sicr, gallesid yn rhesymol ddysgwyl rhyw gymmaint o ddynoliaeth a pharch oddiwrth bersonau ein gwlad genedigol, yn neilldnol oddiwrth y personau hyny ydym wedi bod o les a chymhorth iddynt. Ond sylwn ar eu hanniolchgarwch hwynt. Er i'r Iesu ddyfod atynt ar y neges oreu a mwyaf cariadus, darfu iddynt ei ddiystyru a'i wrthod. Gwnaethant wyrdroi pob gair a lefarai, pob gweithred a gyflawnai, pa mor ddiniwed bynag, pa mor gyfeillgar a chariadus bynag oedd. Pan oedd yn ymdrechu argyhoeddi dynion o'u camsyniadau, gelwid Ef yn gyfaill Publicanod a Phechaduriaid. Pan gymmerai ran gyda hwynt yn eu gwleddoedd diniwed a llon, gelwid Ef yn yfwr gwin ac yn lwth. Pan oedd yn bwrw allan gythreuliaid, cyhuddid Ef o weithredu gyda phenaeth y cythreuliaid; o herwydd iddo gyflawnu gweithred o drugaredd ar y Sabbath, darfu yr Iuddewon chwilio am dano i'w osod i farwolaeth.

Ond er pob peth o'r natur yma darfu iddo ddyfalbarhau gyda ffyddlondeb di-ildio yn y cyflawniad o weithredoedd cariadus a bendithiol; aeth o amgylch gan wneuthur daioni. Yn y diwedd, trwy falais ei elynion a bradychrwydd ei ddysgyblion, daliwyd a dygwyd ef i dreial. Yma darfu iddynt ei watwar, a'i amwisgo â gwisg orwych. Pan mae yn ddystaw cyhuddant Ef o surni, a phan siaradai cyhuddent Ef o gabledd. Yna darfu iddynt boeri yn ei wyneb, a'i gernodio â'u dwylaw. Gosodwyd y gofyniad, Pa un a'i Efe, ynte Barabas y llofruddiwr, fuasai yn cael ei ryddhau? Yr ydych yn gwybod beth oedd yr ateb i'r gofyniad. Darfu iddynt waeddi allan ar unwaith, gan ddywedyd, "Nid hwnw, ond Barabas, a'r Barabas hwnw oedd leidr." A

darfu i'r dyn drygionus yma gael ei ryddhau ar eu cais, a'r Iesu ei fradychu. O! 'r fath weithred annghymharol ddrwg ac eiddigeddus.

Canlynwn Ef gam yn mhellach, ac wele fe yn hoeliedig ar bren y groes; wele Ef yn cael ei groeshoelio rhwng dau leidr! Y mae ei elynion yn ei ddirmygu, hyd y nod yn y fan yma ac yn ei wawdio, ac yn rhoddi iddo *vinegar* i'w yfed; etto i gyd yn yr olygfa galed olaf yma, y mae yn amlygu daioni ei galon, a phurdeb annghymharol ei enaid a'i ddymuniadau. Ni all yr un gwrthwynebiad, neu yr un creulonder siglo ei ffydd nâ'i atal i sicrhau yr amcanion oedd ganddo mewn golwg, neu fyned oddiamgylch gan wneuthur. Y mae yn maddeu i'r lleidr edifeiriol, ac yn ei sicrhau o attaliad dyfodol; y mae yn gweddio, ac yn erfyn dros ei lofruddion, "O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth maent yn ei wneuthur." Chwiliwn i mewn i hanesion holl genedloedd y ddaear am eu cymmeriadau ardderchocaf a mwyaf mawreddog, yn mha le y ceir cymmeriad mor rhagorol a hwn, ië, cymmeriad mor gariadus, dysglaer, a gogoneddus, â chymmeriad y bendigedig Iesu? A allwn ni gan hyny amheu am gymmaint â moment ei fod yn wrthddrych teilwng o'n hefelychiad? A all fod yn angenrheidiol, wedi i ddarluniad o'r fath gymmeriad gael ei osod o'ch blaen, i'r pregethwr gymmeryd i fyny ragor o'ch amser i'ch hannog i efelychu ei esiampl. Caniatewch i mi, fodd bynag, fel casgliad ymarferol oddiwrth y bregeth hon, i'ch hanerch yn iaith syml a dealladwy yr Iesu, "I fyned a gwneyd yr un modd;" bydded fod eich ewyllys da fel eiddo eich Meistr Mawr, yn anhunanol, annghyfyngedig, a rhad. Felly y bydd i ni ddangos a phrofi yn y modd mwyaf effeithiol mai ei ddysgyblion Ef ydym; felly y bydd i ni weithredu yn fwy cysson â n natur resymol; felly y bydd i ni sicrhau cymmeradwyaeth ein calonau ein hunain, cymmeradwyaeth y doeth a'r da, cymmeradwyaeth y doethaf a'r goreu o fodau, ac felly, yn olaf, i barotoi ein hunain ar gyfer y dedwyddwch hwnw na welodd llygad, na chlywodd clust, ac na ddaeth i galon dyn erioed, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant Ef."

L.

GOFYNIAD.

[Hen Ystraeon Cymraeg.]

Mae M. Gaidoz yn dymuno gofyn trwy gyfrwng Yr Ymofynydd am unrhyw hyspysrwydd ellir gael gafael arno ar y tri phwnc canlynol:

1. *Y Diafol.*—Ei enwau poblogaidd—y ffugenwau wrth y rhai yr adwaenir ef (megys diawch, diawst) *periphrases or euphemisms*—llwon yn y rhai y mae yn ffigro—diarebion, chwedleuon, a chancuon mewn cyssylltiad ag ef—ofergoelion am dano.

2. *Cydser yr Arth Fawr* (Charles's Wain).—Yr enwau poblogaidd—sut yr esponir yr enwau?—dywediadau, ystraeon am dano.

3. Yr un gofyniadau am *Fwa'r Arch.*

D.S.—Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw help a gawn i'w anfon i M. Gaidoz.

Gohebiaethau.

EICH ANERCHIAD.

Yr wyf wedi darllen eich anerchiad yn y rhifyn diweddaf gyda llawer o fudd a phleser, yr wyf yn gobeithio fod ereill wedi gwneuthur yr un peth. Ond y mae un sylw yn neillduol ag sydd wedi bod yn achos y llinellau hyn, sef yw hyny, y sylw mewn perthynas i "anffyddlondeb i'r gwirionedd," neu *insincerity*. Yr wyf yn cofio ychydig yn ol cwrdd â boneddwr a gyhuddai yr Undodiaid yn gryf iawn o'r pechod mawr hwn. Yn awr, meddaf, os ydym am glywed ein ffaeleddau, cynllun da ydyw myned at *outsiders* i wybod eu barn am danom. Dywedwn ni a ddywedom, nid yw Undodiaid hyd yma wedi cyrhaeddyd perffeithrwydd y ffydd y maent yn broffesu. Mae y ffydd Undodaidd yn un ogoneddus iawn. Ond yn awr am y cyhuddiad: Mae yr Undodiaid yn ddiffygiol mewn gonestrwydd, am eu bod yn enwi Iesu Grist gyda Duw, mewn modd na wnaent enwi Socrates neu Plato, Pythagoras neu Confucius. Wel, y mae yn werth i Undodiaid holi eu hunain yn mherthynas i'r mater yma. A oes rhesymau digonol dros hyny? Ond swniai y cyhuddiad ar y pryd yn ysmala iawn yn fy nghlustiau i, gan fy mod yn gwybod rhywbeth o hanes y boneddwr crybwylledig; fod ei dad yn Undodwr, fod yntau ar ol priodi gwraig sydd yn Drindodes, yn rheolaidd yn mynychu addoliad—y Drindod! Ac meddwn i, rhyngof fi a fy hunan, ie, *insincerity!* Nid doeth i rai yn byw mewn tai gwydr daflu ceryg. Dyma ddyn yn addoli y Drindod, ac y mae yn amheus genyf a yw yn credu mewn Undod!

CRITO.

PAPYR Y PARCH. T. T.

Gwnaeth y Parch. T. T. lawer o sylwadau pwrpasol yn y papyr a ddarllenodd yn Nowlais, ac yr wyf yn gobeithio cael ei weled, neu o leiaf y sylwedd o hono yn yr YMOFYNYDD. Yr wyf yn hollol argyhoeddedig fod llwyddiant Undodiaeth yn y dyfodol yn dybynu ar ymdrech presenol Undodiaid. A phe byddai gofod ac amser yn caniatau, mi wnawn sylwi ar amryw bethau na chyfeiriwyd atynt yn Nowlais, y rhai nid ydynt yn cael y sylw dyladwy ar ran mwyafrif proffeswyr Undodiaeth; ond yn bresenol yr wyf am awgrymu fod eisieu mwy o sel a brwdfrydedd yn ein plith; eisieu dangos trwy ein sel ein bod ni ein hunain yn credu yn ngwerth a phwysfawredd yr egwyddorion a broffeswn. Yr ydym yn dal ein hegwyddorion yn rhy oer a llaes. Mae eisieu cynhyrfu ein natur ysprydol i'r gwaelodion, fel y gallom deimlo mewn gwirionedd fod genym genadwri sydd yn werth i'r byd i'w chlywed; fod genym grefydd a rydd hyfforddiant mewn bywyd a chysur a nerth yn ymyl y bedd. Synai Mr. T. na fuasai mwy o bobl ieuainc yn ymgymmeryd â gwaith y weinidogaeth; pobl ieuainc mewn sefyllfa dda, na fydd angen arnynt edrych gymmaint ar y gyflog, dyna sydd eisieu; yn barod i ymaberthu o blaid gwirionedd a lles y byd. Ni fu erioed ardderchocach efengyl nâ'r un Undodaidd, nac un fwy gogoneddus, efengyl Crist ei hun yw, efengyl mewn gwirionedd yw, efengyl y cariad tragwyddol, newydd da o lawenydd mawr i bawb. A phaham na allai pob Undodwr fod yn genadwr Undodaidd yn y cylch y mae yn troi ynddo? Mae yn sicr eisieu rhyw symbyliad neu gyffroad yn ein plith. Sut mae ei gael? Y sut cyntaf, dybygwn, fydd i ni deimlo fod ei eisieu arnom. Gadewch i ni gael tipyn o drafod ar y mater hwn, Mr. Gol.—

IFOR.

LLWYBR dyledswydd yw yr unig lwybr i wir ddedwyddwch.

MEDDWL plentyn yw y peth tyneraf, sancteiddiaf ar y ddaear. Safed rhieni megys gwylwyr wrth y deml, rhag i ddim aflan fyned i mewn.

Manion a Hanesion.

ABERDAR.—Cynnaliwyd Cyfarfod Trimisol yr Ysgol Sul yn yr H.D.C., nos Iau, Ionawr 17, pryd y cafwyd gwledd hapus o adrodd, a chanu, a darllen, a sillebu, &c.

Mae y ty yn yr hwn y bu John Calvin yn efrydu'r gyfraith, sef, 10, Rue du Gros Anneau, Orleans, newydd ei dynu i lawr. Fel hyn y mae'r olion allanol yn diflanu. Wrth gofnodi y ffaith mae'r *Christian World* yn dywedyd hefyd: "A clean sweep is being made nowadays of the oppressive theological monstrosity called Calvinism."

LLANBEDR.—Cafwyd cyfarfod canu anarferol lwyddiannus mewn cyssylltiad â Chapel Brondeifi. Elid i mewn trwy docynau 21s., 10s. 6c., 5s., &c., a sicrhawyd y swm ardderchog o £102 0s. 3c., mwy nâ digon i glirio'r ddyled. Bwriedir defnyddio'r gweddill i adeiladu tŷ capel. Yr oedd y cantorion yn perthyn i wahanol enwadau, ond rhoddodd yr oll eu gwasanaeth yn rhad. Diolch yn fawr i bawb.

LLANDYSSUL.—Cynnaliwyd yr Wyl De Flynyddol mewn cyssylltiad â'r Ysgol Sul Undodaidd yn y lle hwn ar ddydd Nadolig, a chyfranogodd oddeutu 80 o ysgolheigion ac athrawon o'r danteithion a barotowyd iddynt. Yn yr hwyr, o dan lywyddiaeth y Parch. W. James, B.A., aeth y côr trwy wasanaeth o gân,—"Bywyd Theodore Parker,"—o dan arweiniad E. Evans, Ysw., yr hwn er pan y dechreuwyd yr achos Undodaidd yma tua phumtheg mlynedd yn ol, sydd wedi ennill parch yr hen a'r ieuainc, trwy ei lafur diflino yn nglyn â'r canu a phob peth da er lles Undodiaeth yn Llandyssul. Gan mae newydd-beth yw y gwasanaeth uchod yn yr ardal yma, da oedd genym ganfod cymmaint o wrandawyr yn bresenol, a'r sylw yr oeddynt yn dalu i'r holl weithrediadau. Yn ystod y cyfarfod rhanwyd 30 o wobrwyon rhwng y rhai ag oeddynt wedi presenoli eu hunain hwyaf yn yr Ysgol Sul. Y mae llwyddiant ein cyfarfod y Nadolig hwn i'w briodoli yn benaf i'r cynnorthwy a gawsom gan ein gweinidog twymgalon, yr hwn, y mae'n dda genym hyspysu, sydd yn mwynhau gwell iechyd nag a fu.—D. LL. E.

Yn ol y *Christian Herald* y mae y wybr goch anarferol a gyfeiriasom ato yn ein rhifyn diweddaf i'w briodoli i ddyfodiad buan Crist ar gymylau'r nef. Pwy ddywedodd hyny wrth y *Christian Herald* wys?

Ar y 1af o Ionawr, 1871, y daeth Deddf Dadgyssylltiad a Diwaddoliad Eglwys Sefydledig Lloegr yn yr Iwerddon i rym.

Mae M. Ruchonnet, gwleidiadwr Swissaidd enwog, yn proffwydo fod rhyfel Ewropaidd ofnadwy yn ymyl. Os felly, gobeithiwn fod digon o Gristnogaeth yn Mhrydain i ymgadw allan o honi.

DOWLAIS.—Mae y Parch. W. J. Davies wedi derbyn grant o £82 tuag at ei helpu i barhau gyda'i efrydiaethau.

Clywsom fod y Parch. J. H. Davies, Cefn, ar fedr myned i Goleg Caerdydd yn ystod y tymhor nesaf.

LLWYNRHYDOWEN.—Cymmerodd cylchwyl flynyddol Ysgolion Sul Llwynrhydowen a Chapel-y-Fadfa le ar ddydd Nadolig. Fel mae'n arferol yn ein Heglwysi Cymreig ar achlysuron o'r natur yma, adroddodd yr ysgolion bennodau o'r Testament Newydd, a holwyd hwy ar eu chynnwysiad gan y Parch. W. James a Mr. E. D. Priestley Evans, diweddar o Goleg Aberystwyth. Yr oedd sylw mawr wedi ei dalu i'r rhan gerddorol, ac yr oedd y cyfarfod i gyd yn rhoddi boddlonrwydd mawr. Yr oedd hen gapel eang y Llwyn wedi ei lanw yn gysurus gan yr ysgolheigion yn nghyd â'u hathrawon a'u cyfeillion. Mae y ddwy ysgol, y rhai a rifant gyda'u gilydd oddeutu 180, yn gwneyd gwaith da, ac maent mewn sefyllfa flodeuog, ag ystyried fod y ddau gapel yn nghanol y wlad, ac yn cael eu hamgylchynu gan boblogaeth wasgaredig. Ar ddiwedd y cyfarfod yr oedd lluniaeth wedi ei ddarparu ar gyfer rhai o bell trwy garedigrwydd ychydig o aelodau Eglwys Llwynrhydowen.—O'r *Christian Life*.

WIG.—Cynnaliwyd gwasanaeth crefyddol boreu Nadolig, gwyl de yn y prydnawn, a chyfarfod adloniadol yn yr hwyr. Pasiodd yr oll yn hwylus, ac yr oedd y cynnulliadau yn lluosog. Yn yr hwyr cadwyd i fyny yr hen arferiad o oleuo'r capel â rhyw 80 o ganwyllau.

MAIDSTONE.—Mae y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., wedi rhoi rhybudd ei fod yn rhoi pwlpud y lle hwn i fyny.

ENWAU yr esgobion a ymhyfrydent yn y gwaith o losgi y rhai a alwent yn hereticiaid oedd Gardiner, esgob Winchester, a Bonner, esgob Llundain.

MAE Signor de Grandi, offeiriad Pabaidd yn Rhufain wedi troi yn Undodwr.

Un nos Sul yn ddiweddar yr oedd cynnulleidfa luosog wedi dyfod yn nghyd i wrando y Parch. James Jones, curad Eglwys yn Ventnor, yn traddodi ei bregeth ffarwel. Gan fod Mr. Jones yn boblogaidd iawn gwrthododd y Ficer iddo gael pregethu. Pan glywsant hyn cododd corff y gynnulleidfa i fyny ac aethant allan. Yna dechreuodd y Ficer y gwasanaeth ac hysiwyd ef gan y bobl. Wedi gorphen y gweddiau dywedodd nad oedd wedi cael amser i barotoi pregeth.

Marwgofion.

Tach. 3, yn 27 oed, Evan Watkin, mab John ac Eleanor Davies, Llettybwen, plwyf Ystrad, ar ol hir wendid a nychdod. Bu am naw mlynedd yn swyddfa gyfreithiol D. Lloyd, Ysw., Llanbedr, lle yr oedd wedi ei erthyglo. Gweithiodd yn galed a deuai yn y blaen yn llwyddianus. Pe cawsai oes, yr oedd pob argoelion y byddai yn ddyn defnyddiol a chymmeradwy fel cyfreithiwr. Treuliodd ei oes fer heb gael ei arwain gan demtasiynau i un arferion anfoesol. Bu yn athraw defnyddiol yn Ysgol Sul Eglwys Llanbedr am flynyddoedd. Ar ddydd ei angladd, yn y tŷ, pregethodd periglor Llanbedr oddiwrth Heb. xii. 1., a chladdwyd ef yn yr Ystrad. Gadawodd gylch helaeth o gyfeillion mewn hiraeth ar ei ol; a tad a mam dyner, a brodyr a chwiorydd mewn galar dwys. Na fydded iddynt alaru fel rhai diobaith.

Y dydd cyntaf o'r flwyddyn hon, yn 37 oed, bu farw James Evans, Gyfeile, Llandyssul, a chladdwyd ef y Sadwrn canlynol yn nghladdfa'r teulu a llawer o'r tylwyth yn Pantdefaid. Darllenwyd a gweddiwyd yn y Capel gan y Parch. John Davies, Alltyplaca, a phregethwyd gan T.T., gweinidog y capel, oddiwrth Diarebion xxvii. 1. Er fod yr hin yn wlawiog iawn yn y bore daeth yn nghyd yn brydlawn o bell ac agos dyrfa anarferol o luosog o berthynasau a chydnabod, ac yr oedd yn weledig arwyddion o gydymdeimlad diffuant â gweddw a phlant bychain yr ymadawedig (3 mewn nifer), yn nghyd ag â'i dad a'i fam oedranus, y rhai ni feddent ond efe yn unig ar dir y byw. Yr oedd James Evans yn fab i Rees a Jane Evans, Gyfeile, gynt o Fronfedw, Cilie. Ei weddw sydd ferch i John a Sarah Jenkins, o Rydybenne, Ystrad. Nid oedd ein cyfaill ymadawedig mwy nâ neb arall o blant dynion heb ei wendidau, ond nid gormod fyddai dywedyd am dano ei fod yn un o'r mwyaf diniwed, hawddgaraf a'r caredicaf o feibion gwragedd.

Ionawr 8, Gruffydd, mab Jenkin a Gwenny Morgan, Craig Trebanos, Pontardawe, yn 13 mis oed.

Ust! mi glywaf swn galaru—
  Colli'r baban llon,
Braidd fu colli pob dedwyddwch,
  Fedd y ddaear hon;
Wylo deigryn—yna syllu
  Ar ei welw wedd,
Yw ein rhan, cyn rhaid ei osod
  Yn ei ddystaw fedd.

Tyner riaint, O! nis medrwch
  Gan fath archoll friw,
Beidio gollwng deigryn galar—
  Rhy fyth-anhawdd yw.
Tlws flaguryn, wrth ymagor
  Er mor gain ei wedd,
Deifiol chwa o fro marwoldeb
  Chwythodd ef i'w fedd.

Pe y medrai serch a gofal,
  Mam ei gadw'n iach,
Gwenu ar ei monwes heddyw
  Wnai ei baban bach;
Cadarn freichiau tad a'i gwyliai,
  Rhag dyoddef cam;
Etto'u gadael wedi dysgu
  Galw '*dat*' a '*mam*.'

Aeth y bychan hoff dibechod,
  O annuwiol fyd;
Do, cyn profi ei helbulon,
  Fry i'r Wynfa glyd;
Lle mae myrdd o nef-fabanod,
  Na fu 'rioed un 'staen,
Ar eu bywyd byr dilychwin;
  Perlau'r nef yw rhai'n!

DYFFRYNFARDD.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &c., ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—T.L., Porthcawl; D.J., Ciliau; T.E, Llwyn; D.T., Ochryrhos; D. E., Rhymney; E.J., Ceginan; T.D., Dolbwba; J.L., Dowlais; H.M., Gellionen; Mrs. W., London; R.Ll., Bwllfa; L.Ll., Cardiff; Messrs. S., Oxford; D.E., Ystrad; W.J., Cwmbach; M.T., Talgarth; J.J., Llandyssul; D.T., Liverpool; D.T., Treorkey; W.D., Cwmavon; W.L., Pontypridd; H.J., Glynneath; J.W., Cwmaman; R.J., Neath; J.J., Llandilo; E.T., Bwlch; J.J., Aberdare; G.J., Bank.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
IVY COTTAGE,
ABERDARE.

EMYNAU MAWL A GWEDDI, 2s. mewn papur, 2s. 6ch. mewn llian; yn rhad trwy y *Post*.

CHANNING'S COMPLETE WORKS, 864 pp., the cheapest book in the language, except the Bible and the 1s. Shakspeare. Price, 1s., by post, 1s. 3d. (paper).

TEN LECTURES on the Positive Aspects of Unitarian Thought and Doctrine, with preface by DR. MARTINEAU. By post, 1s. 3d. (Cloth).

HISTORY OF THE CHURCH OF THE FIRST THREE CENTURIES, by DR. LAMSON. 480 pp. By Post, 3s. 6d.

☞ Oddiwrth y Golygydd ar dderbyniad eu gwerth.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD YN NGHYMRU.

	£	s.	d.
Dienw per Rev. J. Davies	0	3	0
Mr. Jas. Evans, Dowlais	0	3	0
Rev. T. Thomas	1	0	0

CAPEL NEWYDD, LLANDYSSUL.

	£	s.	d.
Cydnabyddwyd eisoes	629	10	2
Thos. Davies, Dolbwba, Talsarn	0	2	6
Mrs. Jane Jones, Cwmmawr, Llanwenog	1	0	0
J. Morgan, Cefncwnlle, Tregaron	0	2	6
T. Jones, Cwmscawen, Talsarn	0	2	0
T. Jones, Auctioneer, Cwrtnewydd	2	2	0
A Working man, Collumpton, Devon	0	1	0
W. Evans, Penffynnon, Llandyssul	0	10	0
Miss M. Enoch, Llandyssul	0	2	6
W. D. Jeremy, London	1	1	0
D. Phillips, St. Clears	0	5	0
Mrs. Filliter, Tunbridge Wells (Ychwanegol)	1	1	0
Mrs. Griffith, do. do.	1	1	0
Mrs. Davies, Dyffryn, Llandyssul	0	10	0
Dl. Davies, Lowtre, Llanwenog	1	0	0
Jas. Jenkins, Llangadog	1	1	0
Walter Jenkins, Ystrad, Talsarn	1	0	0
Mrs. Jenkins, do.	0	10	0

Anfoner pob tanysgrifiadau at W. JAMES, YSGRIFENYDD.